CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847

AR GYFER ATAL RHWYSTR

Gan y bydd Stryd y Bont, Cydweli yn orlawn ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf 2025 rhwng 10:45 a 13:45 ac yn debygol o fod wedi'i rhwystro, o'r gyffordd â Heol yr Orsaf hyd at y gyffordd â Phorth y Castell, am bellter o 214 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac wedyn y gogledd-ddwyrain, i ddarparu lle diogel ar gyfer Carnifal Tref Cydweli 2025.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y stryd a enwyd, sef Stryd y Bont, Cydweli y bydd y stryd honno'n cael ei chau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf 2025 rhwng 10:45 a 13:45, ar yr amod bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r gogledd-ddwyrain fydd parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Heol Fair, hyd at y gyffordd â Heol y Prior. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Heol y Prior, hyd at y gyffordd â'r A484 Ffordd Osgoi Cydweli. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ar hyd yr A484 Ffordd Osgoi Cydweli hyd at gylchfan Parc y Bocs. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf i'r B4308 Cydweli a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin i ddychwelyd i fan sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de-orllewin fydd parhau i gyfeiriad cyffredinol y de ar hyd yr A484 Ffordd Osgoi Cydweli, hyd at y gyffordd â Heol y Prior. Troi i'r dde wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Heol y Prior, hyd at y gyffordd â Heol yr Abaty. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd Heol yr Abaty, hyd at y gyffordd â Heol Ystrad. Troi i'r dde wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Heol Ystrad, hyd at y gyffordd â Stryd y Sarn. Troi i'r dde wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ar hyd Stryd y Sarn i ddychwelyd i fan sydd i'r de-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:

Steven R Murphy

PENNAETH Y GYFRAITH, LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU SIFIL

Dyddiedig y      o Fehefin 2025

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

19171